Comisiynydd Plant Cymru

Amcangyfrif cyllideb 2020/21

Cynnwys

1. Cyflwyno'r amcangyfrif
2. Rôl Comisiynydd Plant Cymru
3. Trefniadau llywodraethu
4. Ein perfformiad
5. Effaith ar y Gronfa Gyffredinol a Sylwadau Cyffredinol

1. Cyflwyno'r amcangyfrif

Rwy'n cyflwyno'r amcangyfrif hwn o'r gyllideb i Weinidogion Cymru fel sy'n ofynnol o dan baragraff 6(2) o Atodlen 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'n nodi'r adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni fy swyddogaethau statudol.

Rwyf wedi seilio fy amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2020-21 - a'm cynllun gwaith drafft - ar y ffaith y bydd fy nghyllideb yn parhau yr un fath ag yn y flwyddyn flaenorol, sef £1,579,895.

Tabl 1: Amcangyfrif a lefel cyllideb ddangosol ar gyfer y tair blwyddyn ariannol nesaf

| | Amcangyfrif 2020-21 (£) | Dangosol 2021-22 (£) | Dangosol 2022-23 (£) |
|---|---|---|---|
| Cyflogau (gan gynnwys cyfraniad pensiwn) | 1,175,424 | 1,205,865 (1) | 1,215,840 |
| Safleoedd | 94,599 | 95,105 | 95,621 |
| Costau Swyddfa | 65,000 | 65,242 | 65,242 |
| Hyfforddiant a llesiant | 19,000 | 19,160 | 19,323 |
| Teithio a chynhaliaeth | 14,550 | 14,550 | 14,550 |
| Ffi archwilio allanol | 17,643 | 17,643 | 17,643 |
| Ffi archwilio mewnol | 12,000 | 12,000 | 12,000 |
| Cyfathrebu | 45,800 | 45,800 | 45,800 |
| TGCh | 28,260 | 28,260 | 28,260 |
| Costau prosiect | 113,000 | 113,000 | 118,071 |
| Cyfalaf a Dibrisiad | 10,000 | 10,000 | 7,000 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **1,595,276** | 1,626,625 | 1,639,350 |
| | | | |
| **Cyllid gan Lywodraeth Cymru** | **1,579,895** | 1,579,895 | 1,579,895 |
| | | | |
| **Gor / (Tan) Wariant** | 15,381 (2) | 46,730 | 59,455 |

1. Sylwer bod y cynnydd yn 2021-22 yn ymwneud â chanran y staff a gyrhaeddodd frig eu band cyflog yn y flwyddyn honno.
2. Mae hwn yn orwariant bychan a gynlluniwyd, fel rhan o'n hymdrech lwyddiannus barhaus i leihau'r gronfa gyffredinol a etifeddwyd gan ddeilydd presennol y swydd.

## 2. Rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru (CPC), a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, yn sefydliad hawliau plant annibynnol. Mae fy nghylch gorchwyl wedi'i nodi yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, a newidiodd Ddeddf Safonau Gofal 2000. Fy mhrif nod yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Rhaid mai dyma fy amcan gor-redol wrth gyflawni fy swyddogaethau.

Y diffiniad o blentyn yn Neddf 2000 yw person o dan 18 oed, er fy mod i'n gallu gweithredu pan fydd person ifanc yn hyn na hyn o dan rai amodau. Er enghraifft, galla i weithredu ar ran person ifanc sydd wedi cael ei roi mewn gofal ac y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd barhaus i ofalu amdano/amdani o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Wrth ymarfer fy swyddogaethau, rhaid i mi roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) - siarter ryngwladol sy'n nodi'r isafswm safonau ar gyfer plant a phobl ifanc, ble bynnag maen nhw'n byw. CCUHP yw'r sylfaen ar gyfer fy ngwaith i gyd. Er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnal yng Nghymru, galla i adolygu swyddogaethau neu ymarferiad swyddogaethau amrywiol gyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru, ac adolygu a monitro'r trefniadau sydd gan rai cyrff cyhoeddus i ddiogelu a hybu hawliau plant yng nghyswllt delio gyda chwynion a sylwadau, sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn ymateb i ddatgelu camarfer, cynrychioli barn a dymuniadau plant, a rhoi cyngor a chefnogaeth i blant.

Mae fy nghylch gorchwyl yn cwmpasu holl feysydd pwerau datganoledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn effeithio ar hawliau a lles plant. Gallaf hefyd gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru.

## 3. Trefniadau Llywodraethu

Gan fy mod mewn swydd gyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus, rwy'n ymroddedig i weithredu systemau trylwyr a thryloyw o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau. Mae fy fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r sefydliad. Yn unol â safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae llywodraethu corfforaethol wedi bod yn destun archwilio mewnol gan ein hymgynghorwyr, Deloitte. Maent wedi cynnig sicrwydd sylweddol ynghylch ein llywodraethu corfforol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Isod ceir disgrifiad o'n strwythur llywodraethu. Mae manylion pellach ynghylch aelodaeth pob grŵp, presenoldeb a'u cylchoedd gorchwyl ar gael ar ein gwefan.

**Y Comisiynydd:** fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Comisiynydd yn gorfforaeth un person ac yn swyddog cyfrifyddu.

**Y Tîm Rheoli:** Ei brif ddiben yw darparu cefnogaeth a chyngor i'r Comisiynydd ynghylch cyfeiriad strategol y sefydliad, gan gynnwys cyfrannu at ddatblygu nodau strategol a chynlluniau gwaith blynyddol. Mae'r Tîm hefyd yn gyfrifol am arweinyddiaeth strategol y sefydliad, ac yn rheoli'r gwaith o redeg y swyddfa o ddydd i ddydd yn unol â gwerthoedd y sefydliad.

**Panel Ymgynghorol y Comisiynydd a'r Paneli Pobl Ifanc:** Mae'r paneli hyn yn darparu cefnogaeth annibynnol ar ffurf cyngor, craffu a her i'r Comisiynydd a'i staff, er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol y Comisiynydd yn cael eu cyflawni'n effeithiol, a bod ei staff yn gwneud yr un modd yn achos polisïau a chynigion , gan lywio'r polisi a'r blaenoriaethau strategol.

**Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg:** Mae'n cynghori'r Comisiynydd ynghylch y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu, polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon, a'r gweithgaredd a gynlluniwyd a

chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol. Mae'r Aelodau Anweithredol hefyd yn darparu her yng nghyswllt fy ngwariant a'm hamcangyfrif.

**Archwilio Mewnol:** Mae Deloitte LLP yn darparu gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer y swyddfa. Maent yn gweithredu'n unol â safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd, sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system archwilio mewnol y sefydliad. Yn eu Hadroddiad Blynyddol diweddaraf i mi, rhoddodd Deloitte sicrwydd sylweddol mewn perthynas â llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a mesurau rheoli ariannol allweddol. Daethant hefyd i'r casgliad, ar sail y gwaith a wnaethant y llynedd, fod gennym system gadarn ar gyfer rheolaeth fewnol, a ddylai ddarparu sicrwydd sylweddol mewn perthynas â chyflawni fy amcanion.

**Archwilio Allanol:** Ar sail flynyddol, mae cyfrifon fy sefydliad yn cael eu harchwilio a'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn unol â pharagraff 9 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal. Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg ar sefyllfa ariannol y sefydliad. Mae'n ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n ymwneud â'r cyfrifon. Yn 2019, rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn ddiamod ar ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon ar gyfer 2018/19.

## 4. Ein perfformiad

Mae ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf, sydd ar gael ar ein gwefan, yn cynnwys dadansoddiad manwl o'n cyflawniadau. Mae'n cynnwys manylion ynghylch sut mae ein gwaith prosiect a chraidd (o ddydd i ddydd) wedi cyflawni yn erbyn ein cynllun tair blynedd uchelgeisiol. Isod ceir crynodeb o'n prif gyflawniadau rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019:

- ✓ Cyflawnwyd ymarferiad ymgynghori arwyddocaol gyda phlant ac oedolion a chyhoeddi ein rhaglen waith ar gyfer 2019-22.
- ✓ Cyhoeddwyd adroddiadau ar bontio i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu, bwlio ar-lein, tlodi plant a hawliau plant mewn ysgolion gyda data newydd gan bobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol. Byddwn ni'n gwthio am newid yn yr holl feysydd hyn.
- ✓ Cyhoeddwyd adolygiad awdurdodol o'r dystiolaeth ynghylch cyflwr hawliau plant yng Nghymru.
- ✓ Enillwyd gwobr Aur gan y Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus am ein gwaith Taclo Islamoffobia.
- ✓ Cefnogwyd cyrff cyhoeddus pwysig i fabwysiadu Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant, gan gynnwys Heddlu De Cymru.
- ✓ Croesawyd yn gynnes gyflwyno'r Bil Plant (Diddymu Amddiffynad Cosb Resymol) a fydd yn amddiffyn plant rhag cosb gorfforol - Bil mae'r Comisiynydd wedi bod yn ymgyrchu drosto ers ei diwrnod cyntaf yn y swydd.
- ✓ Gwelwyd Senedd Ieuenctid yn cael ei hethol ac yn cychwyn ar ei gwaith pwysig - corff rydyn ni wedi galw amdano a'i gefnogi pob cam o'r ffordd.
- ✓ Gwelwyd y Llywodraeth yn cymryd camau mawr tuag at ddatblygu Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â Llesiant - un o'r pethau allweddol roedd y Comisiynydd Plant yn galw amdano.
- ✓ Derbyniodd y Llywodraeth 'dri phrawf' y Comisiynydd ar gyfer sicrhau bod plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn derbyn eu hawliau ac yn addunedu i gyflwyno canllawiau newydd statudol er mwyn cyflawni hyn.
- ✓ Cynhyrchwyd adnoddau o ansawdd ar gyfer ysgolion ar ystod o bynciau i gefnogi hawliau, gan gynnwys taclo bwlio ar-lein a sefydlu prosiectau rhwng y cenedlaethau - gyda lefel ardderchog o ysgolion yn manteisio ar hynny.

- ✓ Gweithiwyd ar y cyd ag ysgolion arbennig i sicrhau bod plant o bob gallu yn medru dysgu am eu hawliau.
- ✓ Cynhaliwyd ein cynadleddau hawliau cyntaf ysgol uwchradd i fyfyrwyr a staff.

## 5. Effaith ar y Gronfa Gyffredinol a Sylwadau Cyffredinol

Yn ôl ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon ar gyfer 2018-19, lefel y gronfa gyffredinol oedd £235,000.

Mae'r tabl isod yn amcangyfrif effaith y symudiad rhwng gweddill 2019/20 a'r gyllideb/ariannu ar gyfer y tair blynedd nesaf ar y gweddill yn y gronfa gyffredinol:

Tabl 2: Symudiad yn y Gronfa Gyffredinol yn ystod y cyfnodau ariannol

| | 2019-20 (£) | 2020-21 (£) | 2021-22 (£) | 2022-23 (£) |
|---|---|---|---|---|
| Y Gronfa Gyffredinol ar ddechrau'r cyfnod | 235,176 | 169,918 | 154,537 | 107,807 |
| Gor / (Tan) Wariant | 65,258* | 15,381 | 46,730 | 59,455 |
| Y Gronfa Gyffredinol ar ddiwedd y cyfnod | 169,918 | 154,537 | 107,807 | 48,352 |

*Gorwariant a amcangyfrifir ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20

Yn unol â'm polisi ar gronfeydd cyffredinol - a archwiliwyd ac sy'n destun craffu blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru - rwy'n ymroddedig i sicrhau fy mod i'n cynnal gweddill cadarnhaol yn y gronfa gyffredinol fel bod modd i mi gael hyblygrwydd o fewn y flwyddyn i dalu am gostau ychwanegol, ond hefyd, yn bwysig, i ymateb ar fyr rybudd i unrhyw ymchwiliad neu archwiliad posibl, gan gynnwys archwilio gweithgaredd Gweinidogion Cymru. Rwy'n parhau i fonitro'r rhagdybiaethau gwaelodol ac yn adolygu lefel y gronfa gyda'm Tîm Rheoli bob mis, gyda'm Pwyllgor Archwilio bob chwarter, ac fel y nodwyd eisoes, gyda Swyddfa Archwilio Cymru yn flynyddol.

Ers dod yn Gomisiynydd, rwyf wedi lleihau lefel y cronfeydd wrth gefn y gwnes i eu hetifeddu ryw 50%, ac rwyf wedi rhagweld gorwariant a gynlluniwyd yn ystod y tair blynedd sy'n weddill o'm cyfnod fel comisiynydd, er mwyn cyflawni nodau uchelgeisiol fy nghynllun tair blynedd.

Fel swyddog cyfrifyddu darbodus, mae gennyf ragolygon ariannol manwl, ac rwy'n eu trafod gyda'm Tîm Rheoli bob mis, a'm Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg bob chwarter. Mae'r rhagolygon hyn yn edrych ar yr amgylchiadau y mae angen i mi weithredu oddi mewn iddynt, er mwyn cyflawni fy nghynllun strategol uchelgeisiol sydd wedi'i seilio ar ymgynghori helaeth â phlant a phobl ifanc. Dylid nodi, gan fod disgwyl i'r incwm fod yn statig ac i gostau cyflog a phensiwn godi, ochr yn ochr â chwyddiant cyffredinol, y gallai fod angen i mi ofyn am gyllid ychwanegol ar gyfer 2022-23 (gweler Tabl 2 uchod), ond sylwer bod y rhagolygon hyn yn cael eu hadolygu bob chwarter, ac y gallent newid. Mae fy amcangyfrifon cyllideb yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol a'u rhoi gerbron y Cynulliad bob blwyddyn, felly bydd y ffigurau hynny'n cael eu hystyried a'u diweddaru ar gyfer pob amcangyfrif, er mwyn cyflwyno'r sefyllfa ddiweddaraf wrth ystyried anghenion ariannol y sefydliad yn y dyfodol. Mae hefyd yn werth nodi mai hon fydd blwyddyn gyntaf fy olynydd yn y swydd, ac na fydd ganddo/ganddi rôl mewn unrhyw amcangyfrif a gyflwynir ar gyfer y flwyddyn honno, felly bydd yn ddibynnol ar ragolygon fy nhîm innau i gynllunio sylfaen ariannol sefydlog ar gyfer dechrau'r cyfnod.

Fel y nodwyd yn fy Amcangyfrif ar gyfer 2019-20 fe wnes i sicrhau, heb gost, aelod staff o Ffrwd Cyllid Cyflym y Gwasanaeth Sifil am 6 mis (a ymunodd â ni ar 1 Hydref 2018) i ymgymryd â chyfnod olaf ein prosiect llety, er mwyn cael hyd i'r lleoliad mwyaf cost effeithiol ar gyfer fy swyddfa wedi i'm prydles gyfredol ddod i ben yn 2021. Yn dilyn yr adolygiad hwn oedd yn cynnwys dadansoddiad cost-budd o'r holl opsiynau ac yn cynnwys ymgynghori â'r staff fe gyflwynais bapur penderfyniad i'm Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Chwefror 2019. Mae gwaith yn parhau i symud hyn yn ei flaen, a bydd yn cael ei gwblhau ym mis Mawrth 2020.

Rwyf hefyd yn parhau i adolygu llinellau cyllideb unigol a'm hymrwymiadau gwariant bob mis gyda'm Tîm Rheoli, er mwyn sicrhau bod fy ngwariant yn canolbwyntio ar gyflawni fy amcanion strategol clir, sydd i gyd yn ceisio sbarduno newid cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Er fy mod yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth, mewn ysbryd o dryloywder, rwy'n trafod fy sefyllfa ariannol bresennol bob chwarter gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys fy nghronfeydd wrth gefn, a hefyd y rhagolygon cyllideb yr wyf yn eu paratoi bob mis gyda'm Tîm Rheoli.

Un datblygiad pwysfawr, ond critigol, yng nghyswllt yr amcangyfrif hwn yw ymarferiad ymgynghori diweddar Llywodraeth Cymru (Haf 2019) ar newid Gorchymyn Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllideb a Chyrff Dynodedig) 2018.

Fel Swyddog Cyfrifyddu sy'n derbyn arian cyhoeddus, nid wyf yn gwrthwynebu unrhyw gynlluniau i "symleiddio systemau, gwella cysondeb a thryloywder cyllid Llywodraeth Cymru, a darparu atebolrwydd cliriach i'r Cynulliad a'r cyhoedd." Serch hynny, mae'r diffyg manylder yn yr ymgynghoriad hwn ynghylch unrhyw brosesau newydd wedi ychwanegu at fy mhryderon ynghylch goblygiadau - neu o bosib ganlyniadau anfwriadol - y newidiadau hyn ar statws annibynnol fy swydd.

Mae Egwyddorion Paris – sy'n sefydlu'r isafswm safonau sy'n ofynnol ar gyfer annibyniaeth a gweithrediad effeithiol sefydliadau hawliau dynol cenedlaethol - yn gofyn bod sefydliad cenedlaethol megis Comisiynydd Plant Cymru:

"Yn meddu ar seilwaith sy'n addas ar gyfer cynnal ei weithgareddau'n ddirwystr, yn arbennig cyllid digonol. Diben y cyllid hwn ddylai fod galluogi'r sefydliad i feddu ar ei staff a'i safle ei hun, er mwyn bod yn annibynnol ar y Llywodraeth a pheidio â bod yn destun rheolaeth ariannol a allai effeithio ar ei annibyniaeth."

Ers i'r sefydliad hwn ddod i fodolaeth yn 2001, mae Llywodraeth Cymru, yr unig ffynhonnell refeniw, gan gynnwys y Prif Weinidog blaenorol, wedi bod yn eglur gyda holl ddeiliaid y swydd na ddylai fod - ac ni fu hyd yma - unrhyw ymyrraeth gyda sut rydym ni'n pennu ein blaenoriaethau a'n gweithgareddau.

Ni ddylai fod "lefel briodol o annibyniaeth ar Weinidogion Cymru" fel mae'r ymgynghoriad yn awgrymu, ond yn hytrach dylai'r sefydliad hawliau dynol cenedlaethol hwn gael ei drin fel corff cwbl annibynnol ar y Llywodraeth a Gweinidogion Cymru. Fel arall, mae perygl y gellid cyfyngu ar ddeilydd y swydd hon gan yr union gyrff cyhoeddus mae wedi cael ei sefydlu i fwrw golwg drostynt a'u herio.

Yn wyneb fy mhryderon a amlinellwyd yn ein hymateb i'r ymgynghoriad, byddwn i'n croesawu'r posibilrwydd o drafodaethau pellach rhwng fy swyddfa a Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol ar un o'r sefydliadau hawliau dynol annibynnol mwyaf hirsefydlog o ganlyniad i broses sy'n ceisio symleiddio prosesau, gwella cysondeb a darparu atebolrwydd cliriach.

Er gwybodaeth, mae'r amcangyfrif uchod wedi cael ei gyflwyno ar y rhagdybiaeth na wneir unrhyw newidiadau i'n cronfa gyffredinol cyn blwyddyn ariannol 2020-21.